The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (Cyf: EN010112)

Nodyn yr Awdurdod Archwilio ynghylch Archwiliad Safle Digwmni

Archwiliad 3: Amgylchoedd safle'r cais a'r ardal ehangach – 5 Medi i 7 Medi 2022

Mae'r nodyn hwn yn gofnod byr i roi gwybod i'r Ymgeisydd, Partïon â Buddiant ac unrhyw bartïon eraill am y camau gweithredu a gymerwyd gan yr Awdurdod Archwilio (ExA).

Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio (neu gyfuniad o'i aelodau) Archwiliad Safle Digwmni ar ddydd Llun 5, dydd Mawrth 6 a dydd Mercher 7 Medi 2022. Cynhaliwyd yr archwiliadau mewn car neu ar droed, o ffyrdd cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus (PRoW). Cynlluniwyd y llwybrau gan ystyried dogfennau cais yr Ymgeisydd ac roedd yr Archwiliad Safle Digwmni wedi galluogi'r Awdurdod Archwilio i weld ac ymgyfarwyddo â safle'r cais a'r ardal amgylchynol.

Mae'r golygfannau (VP) y cyfeirir atynt yn ymwneud â'r rhai hynny a amlygwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol (SLVIA) a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd [AS-027]. Defnyddiwyd darluniadau'r Ymgeisydd i helpu i ddelweddu'r Datblygiad Arfaethedig o'r golygfannau hyn.

Gallai'r Awdurdod Archwilio (neu gyfuniad o'i aelodau) gynnal Archwiliadau Safle Digwmni eraill maes o law a phan fydd angen.

<u>DIWRNOD 1 – Dydd Llun 5 Medi 2022</u>

Tywydd: Clir a heulog

Gweledegdd: Da

Mynychwyd yr archwiliad gan Alex Hutson, aelod o banel yr Awdurdod Archwilio. Ymwelodd â SLVIA **VP 35** (Tŵr Blackpool), **VP 33** (pier Southport), **VP 32** (Gorsaf Bad Achub Formby (Formby Point)), **VP 31** (Crosby) a **VP 30** (Hilbre Point), yn y drefn honno, gan yrru rhwng y golygfannau a cherdded ar hyd PRoW i gyrraedd y golygfannau pan oedd angen.

Arsylwodd Mr Hutson nad yw'n ymddangos bod lleoliad VP 35, sydd wedi'i phlotio i'r de o'r Pier Canolog ar Ffigur 62a [APP-264], yn cyfateb yn gywir i leoliad Tŵr Blackpool sydd wedi'i leoli i'r gogledd o'r Pier Canolog.

<u>DIWRNOD 2 – Dydd Mawrth 6 Medi 2022</u>

Tywydd: Cymylog gydag ysbeidiau heulog.

Gweledegdd: Da

Mynychwyd yr archwiliad gan yr aelodau o banel yr Awdurdod Archwilio, Alex Hutson a Jason Rowlands. Yn gyntaf, gwnaethant ymweld â SLVIA **VP 34** (Copa'r Wyddfa). Dilynwyd Llwybr Cwellyn i'r copa.

Yn ail, ymwelodd Mr Hutson a Mr Rowlands â **VP 39** (Llwybr Gogledd Cymru yn Garreg Fawr) a **VP 60** (Foel Lus), yn y drefn honno, gan yrru rhwng y golygfannau a cherdded ar hyd PRoW i gyrraedd y golygfannau pan oedd angen.

DIWRNOD 3 – Dydd Mercher 7 Medi 2022

Tywydd: Clir a heulog

Gweledegdd: Da

Mynychwyd yr archwiliad gan yr aelodau o banel yr Awdurdod Archwilio, Alex Hutson a Jason Rowlands. Gwnaethant deithio mewn car i'r Rhyl i weld rhannau o goridor arfaethedig y llwybr ceblau. Dangosir y llwybr a gerddwyd ar hyd-ddo yn y ddelwedd[1] isod. Gwnaethant hefyd arsylwi golygfeydd yn cynnwys adeiladau rhestredig sy'n gysylltiedig â Fferm Rhydorddwy Fawr a Rhydorddwy Goch ar hyd Dyserth Road (B5119) i gael gwerthfawrogiad o'r asedau treftadaeth hyn a'u lleoliadau.

Arsylwodd Mr Hutson a Mr Rowlands fod y llwybr sy'n cysylltu'r llwybr troed a amlygwyd gan yr Ymgeisydd fel DE/206/4 gyda llwybrau troed DE/206/11 / DE/206/3 wedi gordyfu ac wedi'i rwystro yn y man a ddangosir gan y saeth goch.



Diwedd Archwiliad Safle Digwmni 3

[1] Mae'r holl ddelweddau'n cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 © Mapbox © OpenStreetMap